

Cais am Drwydded Bersonol o dan Adran 117 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Cyn llenwi'r ffurflen hon darllenwch y nodiadau esboniadol ar ddiwedd y ffurflen a'r taflenni esboniadol sy'n cyd-fynd â hi.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llawysgrifen, a fydddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio prif lythrennau'n unig. Ym mhob achos gofalwch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac wedi'u hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du.

Defnyddiwch daflenni ychwanegol os bydd angen.

Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

I fod yn gymwys i gael trwydded bersonol mae'n rhaid ichi fodloni rhai meini prawf penodol a darparu dogfennau penodol. Nodir y rhain isod.

- Mae'r ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn;
- Atodir y ffi a bennwyd, sef £37, i'r ffurflen gais. Dylai pob siec fod yn daladwy i Gyngor Sir Caerfyrddin;
- Rhaid i ymgeiswyr unigol ddarparu copiâu o ddogfennau sy'n dangos eu cymhwysedd i weithio. Ceir rhestr lawn o'r dogfennau derbyniol yn nodyn cyfarwyddyd 15 ar ddiwedd y ffurflen gais
- Ni fydd yr ymgeisydd wedi fforffedu trwydded bersonol yn y pum mlynedd cyn cyflwyno'r cais;
- Mae gan yr ymgeisydd gymhwyster trwyddedu wedi'i achredu (gweler nodyn 1 isod), neu mae'n unigolyn sy'n cydymffurfio â'r disgrifiad rhagnodedig
- Nid oes gan yr ymgeisydd euogfarnau perthnasol neu euogfarnau tramor ac mae wedi cwblhau un o'r dogfennau a ddisgrifir drosodd yn nodyn 3 a chynnwys
- Dau ffotograff (gweler nodyn 2)

Nodyn 1

Cymwysterau trwydded bersonol achrededig

- Tystysgrif Genedlaethol BIIAB Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 501/1494/3
- Dyfarniad HABC Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 500/9974/7;
- Dyfarniad NCFE Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 600/1323/0
- Dyfarniad SQA Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 600/1269/9
- Dyfarniad CIEH Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 601/2104/X;
- Dyfarniad IQ Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 601/4980/2;
- Dyfarniad LASER Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 600/6446/8;
- Pearson Education Ltd Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 601/3483/5;

- Dyfarniad QNUF Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 603/1021/2;
- Training Qualifications UK Lefel 2 ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Personol, Rhif achredu cymhwyster 601/6508/X;

Nodyn 2

Ffotograff o'r ymgeisydd i gyd-fynd â'r cais am ganiatáu Trwydded Personol.

Yn unol â pharagraffau 23(1)(b) a (3)(b) o Atodlen 8 mae'n rhaid cyflwyno ffotograff o'r ymgeisydd gyda'r cais am ganiatáu trwydded personol ac mae'n rhaid i'r ffotograff hwnnw fod fel a ganlyn-

- (a) wedi'i dynnu o flaen cefndir golau fel y gellir adnabod wyneb yr ymgeisydd yn glir mewn gwrthgyferbyniad â'r cefndir,
- (b) yn 45 milimetr wrth 35 milimetr,
- (c) Yn dangos wyneb llawn heb unrhyw orchudd na sbectol haul na phenwisg, oni bai bod yr ymgeisydd yn gwisgo penwisg oherwydd daliadau crefyddol,
- (d) Ar bapur ffotograffig, ac
- (e) Wedi'i gadarnhau, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 23(3)(b) o Atodlen 8, gan un o'r canlynol –
 - (i) Prif weithredwr ynadon trwyddedu yr awdurdod trwyddedu perthnasol,
 - (ii) Cyfreithiwr neu notari,
 - (iii) Unigolyn ag enw da yn y gymuned e.e. un o swyddogion yr heddlu, gweinidog yr efengyl, swyddog banc neu gymdeithas adeiladu a gwas sifil; neu
 - (iv) Unigolyn â chymhwyster proffesiynol.

Nodyn 3

Manylion ynghylch euogfarnau a throeddau perthnasol neu droseddau tramor

Yn ogystal â chwblhau'r ffurflen datgan a datgelu euogfarnau troseddol (gweler ffurflen atodlen 3 a amgawyd) mae'n ofynnol fod ymgeiswyr yn darparu un o'r dogfennau canlynol:

- Y cyntaf yw'r Datgeliad Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gellir cael archwiliad sylfaenol o gofnodion troseddol oddi wrth Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. I gael rhagor o fanylion ffoniwch y llinell gymorth 03000 200 190, neu edrychwch ar y wefan www.gov.uk/request-copy-criminal-record
- Tystysgrif Euogfarnau Troseddol
- Y trydydd dewis yw cyflwyno cais i'r heddlu am wybodaeth o gyfrifiadur cenedlaethol yr Heddlu. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn cynnig addasiadau yn unol â Deddf Ailsefydlu Troseddwr felly mae'n cynnwys popeth hyd yn oed os nad ydynt yn swyddogol berthnasol mwyach.
- **Rhaid i'r dystysgrif neu'r canlyniad chwilio uchod fod wedi'i roi/rhoi un mis calendr neu lai cyn cyflwyno cais i'r Awdurdod Trwyddedu.**

Manylion Cyswllt yr Awdurdod Trwyddedu

Rhif ffôn 01267 234567

E-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon.

NODIADAU

Mae gwybodaeth ynghylch Deddf Trwyddedu 2003 ar gael ar wefan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (http://www.culture.gov.uk/what_we_do/alcohol_and_entertainment/default.aspx) neu gan eich awdurdod trwyddedu lleol

1. Troseddau perthnasol neu droseddau tramor

Troseddau perthnasol yw'r troseddau a restrir yn Atodlen 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003:

Rhoddir sylw i ystyr **troseddau tramor** yn adran 113 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

Os ydych yn dal trwydded ynadon ac rydych yn gwneud cais am drwydded bersonol o dan reoliad 8 o Ddeddf Trwyddedu (Trwydded Bersonol) 2005 darllenwch baragraffau 23 a 28 yn Rhan 3 o Atodlen 8 i Ddeddf Trwyddedu 2003 ynghylch y wybodaeth y mae'n rhaid ichi ei rhoi.

Os ydych yn eich cael yn euog o drosedd berthnasol neu drosedd tramor yn y cyfnod rhwng cyflwyno'r cais a phenderfynu ar y cais neu dynnu'r cais yn ôl, mae'n rhaid ichi roi gwybod i'r awdurdod y gwnaed cais iddo. Gallai methu â gwneud hynny heb esgus rhesymol arwain at erlyniad a dirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Troseddau perthnasol

1	Unrhyw drosedd o dan y Ddeddf hon.
2	Trosedd o dan unrhyw un o'r deddfiadau canlynol -
	(a) Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Llundain 1963 (c. 33) (trwyddedau adloniant cyhoeddus);
	(b) Deddf Trwyddedu 1964 (c. 26);
	(c) Deddf (Trwyddedu) Mannau Adloniant Preifat 1967 (c. 19);
	(d) adran 13 o Ddeddf Theatrau 1968 (c. 54);
	(e) Deddf Tai Lluniaeth Hwyrnosau 1969 (c. 53);
	(f) adran 6, neu Atodlen 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Amrywiol Ddarpariaethau) 1982 (c. 30);
	(g) Deddf Trwyddedu (Caniatadau Achlysurol) 1983 (c. 24);
	(h) Deddf Sinemâu 1985 (c. 13);
	(i) Deddf Awdurdodau Lleol Llundain 1990 (c. vii)
3	Trosedd o dan Ddeddf Drylliau Tanio 1968 (c. 27).
4	Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Disgrifiadau Masnach 1968 (c. 29) (nwyddau â disgrifiadau masnach anwir) lle bo'r nwyddau dan sylw yn alcohol neu'n cynnwys alcohol.
5	Trosedd o dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Deddf Dwyn 1968 (c. 60)
	(a) adran 1 (dwyn);
	(b) adran 8 (lladrad);
	(c) adran 9 (byrgleriaeth);
	(d) adran 10 (byrgleriaeth ddwys);
	(e) adran 11 (mynd ag eitemau o fannau agored i'r cyhoedd);
	(f) adran 12A (dwysgipio moduron), o dan amgylchiadau lle mae is-adran (2)(b) o'r adran honno yn berthnasol a lle bo'r ddamwain wedi achosi marwolaeth rhywun;
	(g) adran 13 (tynnu trydan);
	(h) adran 15 (cael eiddo trwy ddichell);
	(i) adran 15A (cael trosglwyddiad arian trwy ddichell);
	(j) adran 16 (cael mantais ariannol trwy ddichell);
	(k) adran 17 (cyfrifyddu anwir);
	(l) adran 19 (datganiadau anwir gan gyfarwyddwyr cwmnïau etc.);
	(m) adran 20 (celu etc dogfennau);
	(n) adran 21 (blacmel);
	(o) adran 22 (trafod nwyddau wedi'u dwyn);
	(p) adran 24A (dargadw credyd a gafwyd ar gam a hynny'n anonest)
	(q) adran 25 (rhodio â chyfarpar dwyn etc.).
6	Trosedd o dan adran 7(2) o Ddeddf Hapchwarae 1968 (c. 65) (caniatáu i blentyn gymryd rhan mewn hapchwarae ar safle sydd â thrwydded i werthu alcohol).
7	Trosedd o dan unrhyw un o ddarpariaethau canlynol Deddf Camddefnyddio Cyffuriau
	(a) adran 4(2) (cynhyrchu cyffur rheoledig);

	(b) adran 4(3) (cyflenwi cyffur rheoledig);
	(c) adran 5(3) (bod â chyffur rheoledig yn ei feddiant/ei meddiant â'r bwriad o'i gyflenwi);
	(d) adran 8 (caniatáu i weithgareddau ddigwydd ar y safle).
8	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Dwyn 1978 (c. 31)-
	(a) adran 1 (cael gwasanaethau trwy ddichell);
	(b) adran 2 (efadu rhwymedigaeth trwy ddichell).
9	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (c. 2)-
	(a) adran 170 (diystyru is-adran (1)(a)) (efadu dyletswydd yn dwyllodrus etc.);
	(b) adran 170B (cymryd camau rhagbaratoawl ar gyfer efadu dyletswydd).
10	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Tollau ar Gynhyrchion Tybaco 1979 (c. 7)-
	(a) adran 8G (meddu a gwerthu tybaco heb ei farcio);
	(b) adran 8H (defnyddio safle i werthu tybaco heb ei farcio).
11	Trosedd o dan Ddeddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981 (c. 45) (ac eithrio trosedd o dan adran 18 neu 19 o'r Ddeddf honno).
12	Trosedd o dan Ddeddf Drylliau Tanio (Newidiad) 1988 (c. 45).
13	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988 (c. 48)-
	(a) adran 107(1)(d)(iii) (torri hawlfraint drwy arddangos eitem i'r cyhoedd yng nghwrs busnes);
	(b) adran 107(3) (tor-hawlfraint yn sgil perfformio gwaith yn gyhoeddus etc);
	(c) adran 198(2) (darlledu etc. recordiad o berfformiad a wnaed heb ganiatâd digonol);
	(d) adran 297(1) (derbyn darllediad yn dwyllodrus);
	(e) adran 297A(1) (cyflenwi etc. ddadgodydd heb ei awdurdodi).
14	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (c. 52)-
	(a) adran 3A (achosi marwolaeth drwy yrru'n esgeulus o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau);
	(b) adran 4 (gyrru etc. gerbyd o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau);
	(c) adran 5 (gyrru etc. gerbyd â chrynodiad alcohol sydd uwchlaw'r terfyn a bennwyd).
15	Trosedd o dan un o ddarpariaethau canlynol Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (c. 16) o dan amgylchiadau lle mae'r bwyd dan sylw yn alcohol neu'n cynnwys alcohol-
	(a) adran 14 (gwerthu bwyd neu ddiod nad yw o'r natur, na'r sylwedd na'r ansawdd a fynnwyd);
	(b) adran 15 (camddisgrifio neu gamgyflwyno bwyd neu ddiod).
16	Trosedd o dan adran 92(1) neu (2) o Ddeddf Nodau Masnach 1994 (c. 26) (defnyddio nod masnach etc. heb ganiatâd mewn perthynas â nwyddau) o dan amgylchiadau lle mae'r nwyddau dan sylw yn alcohol neu'n cynnwys alcohol.
17	Trosedd o dan Ddeddf Drylliau Tanio (Newidiad) 1997 (c. 5).
18	Trosedd rhyw yn ystyr adran 161(2) o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 (c. 6).
19	Trosedd dreisgar, yn ystyr adran 161(3) o'r Ddeddf honno

20	Trosedd o dan adran 3 o Ddeddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c. 12) (cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â diogelwch a hynny heb drwydded).
21	Trosedd o dan adran 46 o Ddeddf Hapchwarae 2005 os gwahoddwyd, os parwyd neu os caniatwyd i blentyn neu berson ifanc hapchwarae ar safle y rhoddwyd trwydded safle iddo o dan y Ddeddf hon.]
22	Trosedd o dan Ddeddf Twyll 2006.
22A	Trosedd o dan reoliad 6 o Reoliadau Diogelu Busnesau rhag Marchnata Camarweiniol 2008 (trosedd hysbysebu camarweiniol) o dan amgylchiadau lle mae'r hysbysebu dan sylw yn ymwneud ag alcohol neu nwyddau sy'n cynnwys alcohol.]
23	Trosedd o dan reoliadau 8, 9, 10, 11 neu 12 o Reoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 (troseddau sy'n ymwneud ag arferion masnachol annheg) o dan amgylchiadau lle mae'r arferion masnachu dan sylw â chysylltiad uniongyrchol â hybu, gwerthu neu gyflenwi alcohol neu gynnyrch sy'n cynnwys alcohol.
21	Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Ymgeisiau i Droseddu 1981 sef ceisio cyflawni trosedd sy'n drosedd berthnasol.
25	Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Cyfraith Troseddau 1977 sef cynllwynio i gyflawni trosedd sy'n drosedd berthnasol.
26	Trosedd cyfraith gwlad sef cynllwyn i dwyllo.